Yr Eglwys yng Nghymru:
Arweinlyfr bach i ddarlun mawr

YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

Arweinlyfr bach i ddarlun mawr

Y mae i'r arweinlyfr bach syml hwn bwrpas mawr, sef rhoi gwybod ichwi am bresenoldeb gweithredol yr Eglwys yng Nghymru heddiw. Fe all y byddwch yn synnu at rai o'r ffeithiau a'r ffigurau! Yn bwysig iawn, mae'n egluro rhai o'r sialensiau y mae'r Eglwys yn eu hwynebu wrth galon ein cymunedau yng Nghymru. Dengys ein dyheadau am y dyfodol a'n gobaith am gael cydweithio â chwi i'w sylweddoli.

Pwy ydym

Er 1920, mae'r Eglwys yng Nghymru yn Dalaith annibynnol oddi mewn i'r Eglwys Anglicanaidd Fydeang. Y mae'n cadw'r traddodiad o addoliad a bywyd Anglicanaidd yng Nghymru, ac y mae'n bresennol ym mhob cymuned ledled y wlad.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau eraill er lles pobl Cymru. Y mae'n ymwneud â materion cenedlaethol a rhyngwladol.

Trefniadaeth

Arweinir yr Eglwys yng Nghymru gan ei hesgobion a'i goruchwylio gan Gorff Llywodraethol sy'n cynnwys yr esgobion a hefyd glerigion ac aelodau eglwysig – y rhan fwyaf o'r rheini wedi eu hethol.

Caiff eich plwyf lleol ei redeg gan offeiriad plwyf, wardeniaid eglwys a Chyngor Plwyf Eglwysig yn cynnwys gwirfoddolwyr o blith y gynulleidfa. Clystyrir y plwyfi yn ddeoniaethau bro, a'r deoniaethau bro yn esgobaethau. Y mae chwech esgobaeth yng Nghymru, pob un yn cael ei harwain gan esgob, sef Abertawe ac Aberhonddu, Bangor, Llandaf, Llanelwy, Mynwy a Thyddewi. Y mae Archesgob Cymru yn esgob un o'r esgobaethau, a chanddo gyfrifoldebau cenedlaethol ychwanegol.

Perchenogir eiddo'r Eglwys yng Nghymru gan ymddiriedolaeth (Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru) ond fe'i rheolir yn lleol yn yr esgobaethau a'r plwyfi. Y mae Corff y Cynrychiolwyr yn gweinyddu materion ariannol gan gynnwys pensiynau a buddsoddiadau ac yn darparu cymorth a chyfarwyddyd proffesiynol.

Mae'r esgobaethau hefyd yn dal peth eiddo yn eu hawl eu hunain ac yn trefnu ysgolion yr eglwys yn eu hardaloedd. Y maent hefyd yn trefnu llu o weithgareddau eraill, gan gynnwys prosiectau cyfrifoldeb cymdeithasol.

Beth yr ydym yn ei gredu

Cred yr Eglwys yn Nuw, y creawdwr, y gwaredwr a'r ysbrydolwr cariadus.

Datguddir cariad Duw mewn modd unigryw yn Iesu o Nasareth, ac fe'i ceir ym mhawb.

Golyga'r gwerthoedd sy'n dilyn o'n credoau fod yr Eglwys yng Nghymru:

- yn gofalu am y pethau sy'n wirioneddol bwysig ym mywydau pobl
- yn bwrpasol bresennol ym mhob rhan o Gymru trwy ei phlwyfi
- yn gweithio gyda phobl ac er lles pobl mewn cymunedau a mudiadau yn y plwyfi hynny a'r tu allan iddynt
- yn ymwneud yn weithredol ag anghenion a chyfleoedd lleol ac â lles pobl
- yn annog mathau newydd o ymrwymiad trwy brosiectau cymdeithasol a phartneriaethau
- yn agor ac yn rhannu ei hadeiladau at ddefnydd cymunedol ehangach
- yn croesawu pobl, beth bynnag eu cefndir a'u hoedran, i addoli gyda hi ac i gymryd rhan yn ei gweithgareddau
- yn ymateb i anghenion ysbrydol pobl ar gyfnodau o newid pwysig yn eu bywydau
- yn darparu addysg gynradd, eilradd a thrydyddol ac iddi gymeriad nodweddiadol Gristnogol

Beth yr ydym yn ei wneud

O elwysi ac eglwysi cadeiriol i gaplaniaethau a chynulleidfaoedd; o briodasau i aelodau; o dai i ddigartrefedd; o deuluoedd i liniaru newyn; o Abaty Cwm-hir i Ystradyfodwg, y mae'r Eglwys yng Nghymru yn chwarae ei rhan yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Y mae a wnelom â gweithgaredd a dyhead, cymuned ac ymrwymiad, presenoldeb a phartneriaeth. Dengys yr adrannau a ganlyn agweddau ar weithgareddau'r Eglwys. Wedi eu darllen, byddwch yn dweud: **Wyddwn i ddim bod...**

Adeiladau eglwysig

1,430
o leoedd addoli, yn cynnwys eglwysi cadeiriol, eglwysi plwyf a chapeli

29%
o'r adeiladau rhestredig Gradd 1 yng Nghymru yn eglwysi yn perthyn i'r Eglwys yng Nghymru. Mae dwy ran o dair o'n heglwysi yn adeiladau rhestredig

1,000,000
o bobl yn ymweld â'n heglwysi a'n heglwysi cadeiriol bob blwyddyn

£70 miliwn
o gost atgyweirio amcangyfrifedig ar ein hadeiladau rhestredig dros y pum mlynedd nesaf

Rheolir pob un o'n heglwysi gan aelodau gwirfoddol o'r gynulleidfa leol. Y maent yn gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio pob eglwys, gan gynnwys codi arian.

Yr ydym yn cymryd o ddifrif y gwaith o ofalu am ein heglwysi. Gweithredwn gyfundrefn o oruchwylio gwaith ar ein hadeiladau (cyfundrefn hawleb) a seilir ar gyngor proffesiynol. Bydd pensaer cymwys yn archwilio pob eglwys yn ffurfiol bob pum mlynedd.

Yn ogystal â bod yn lleoedd i addoli, ac i gynnal priodasau (3,538 yn 2007), bedyddiadau (8,170 yn 2007) ac angladdau, y mae eglwysi ac eglwysi cadeiriol yn adeiladau pwysig o safbwynt treftadaeth, yn lleoedd y daw ymwelwyr a phererinion iddynt. Byddwn yn eu cadw'n agored gymaint ag y bo modd. Y mae ynddynt yn aml gasgliadau unigryw yn ymwneud â hanes lleol; y maent yn hyrwyddo cerddoriaeth a chelfyddyd ac yn ganolfannau bywyd cymunedol.

Y mae cyllido'r asedau cymunedol hanfodol hyn yn sialens barhaus.

Clwysty Cadeirlan Tyddewi, y gadeirlan o'r eiddom sy'n derbyn y nifer fwyaf o ymwelwyr a mangre pererindod ers cenedlaethau.

Yn agored i bawb

350
o neuaddau eglwys ac ystafelloedd plwyf

15,000
o weithiau yr wythnos pan ddefnyddir adeiladau'r Eglwys yng Nghymru at amcanion cymunedol

160,000
o bobl bob mis yn defnyddio ein hadeiladau at weithgareddau cymunedol

30%
o bob defnydd a wneir o adeiladau eglwysig yn ddefnydd at weithgareddau pobl ifainc

Er mai neuadd yr eglwys gan amlaf yw'r lle i weithgareddau cymunedol, yn gynyddol fe addasir eglwysi i ddarparu ystod eang o weithgareddau, e.e. ystafelloedd cyfarfod, bwytai, meithrinfeydd, clybiau cymdeithasol, cymorthfeydd, arddangosfeydd a galerïau.

Gall yr eglwys fod yn ganolbwynt cydlynu cymdeithasol – yn lle y croesewir pobl iddo, y gellir eu tynnu i mewn iddo ac y gwerthfawrogir hwy ynddo.

Yr ydym am i'n heglwysi fod yn lleoedd o lawenydd a gobaith a chanddynt raglenni a gweithgareddau hyblyg a dychmygus.

Yn gynyddol, yr eglwys yw'r unig adeilad cyhoeddus sydd ar ôl yn y gymuned, ac y mae ganddo ran allweddol mewn cynorthwyo i ysbrydoli a thrawsffurfio cymunedau a chynulleidfaoedd.

Eglwys Sant Mathew, Abertawe. Rhannwyd hi yn fan addoli ac yn ganolfan adnoddau i bobl dan anfantais (a weithredir gan Gyreniaid Cymru).

Gweithgaredd cymunedol

160
o staff cyflogedig i redeg prosiectau Cyfrifoldeb Cymdeithasol

3,000
o wirfoddolwyr yn cynorthwyo gyda'r prosiectau hyn

8,000
o unigolion yn derbyn cymorth o'n prosiectau

£2.5 miliwn
wedi'u buddsoddi mewn cymunedau trwy ein prosiectau

Trwy feithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol, grwpiau anabledd a grwpiau celfyddyd, clybiau cinio dinasyddion hŷn, a dosbarthiadau Technoleg Gwybodaeth a rhianta, y mae eglwysi lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a ffyniant unigolion a chymunedau ledled Cymru.

Y mae miloedd o wirfoddolwyr o blith ein cynulleidfaoedd yn arwain ac yn cynnal grwpiau cymunedol fel gofalwyr, gwrandawyr, cymodwyr, eiriolwyr, cynghorwyr, hyfforddwyr, cyfeillion, cefnogwyr, cynorthwywyr, calonnau cariadus...

Y mae ein prosiectau Cyfrifoldeb Cymdeithasol, a drefnir gan bob esgobaeth yn ardaloedd difreintiedig Cymru, yn gweithio gyda phobl fregus i adeiladu hyder a hunan-werth, i ddysgu sgiliau newydd ac i atal yn y tymor hir broblemau cymdeithasol megis troseddu, camddefnyddio sylweddau, diweithdra, rhianta gwael a thlodi.

Dyma'r Eglwys yng Nghymru wrth ei gwaith.

Plant yn dysgu drwy chwarae yn Little Sunbeams, Abertawe – prosiect gofal plant sy'n cael ei gynnal gan Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu.

Lleoedd i fyw

Safleoedd

crewyd safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy ac ymchwilir i safleoedd eraill

Digartrefedd

paratowyd cynlluniau yn cynnig cymorth a chefnogaeth

Partneriaethau

yr ydym yn gweithio yn agos ag eraill ar faterion yn ymwneud â thai

696

o dai ar gyfer offeiriaid plwyf

Yr ydym yn poeni ynglŷn â'r angen am dai mwy fforddiadwy yng Nghymru. Eisoes bu adeiladu llwyddiannus ar dir yn perthyn inni, a chynlluniwyd ychwaneg.

Yr ydym yn gweithio i leihau digartrefedd trwy brosiectau mewn ardaloedd dinesig a gwledig megis fflatiau i rieni sengl, lloches a chefnogaeth ar strydoedd.

Yr ydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Shelter Cymru a Thai Cymunedol Cymru i ddatrys anawsterau ynglŷn â thai.

Darperir tai i'n hoffeiriaid plwyf fel y gallant fyw yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Yr ydym yn gosod nifer o dai, ac yn ceisio sicrhau eu bod o safon priodol.

Eglwys Sant Ioan, Hafod, Abertawe. Trowyd yr eglwys hon (gan Tai Cartrefi) yn ddeg o fflatiau i'r henoed, gan gadw man i addoli.

Ysgolion

168
o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

2,978
o athrawon a staff arall

2,086
o lywodraethwyr ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

21,261
o blant a phobl ifainc yn ein hysgolion

Bu'r Eglwys yn ymrwymedig erioed i addysg a dysgu gydol oes. Yr ydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ysgolion ledled Cymru.

Gwasanaethu cymunedau, nid eglwysi, y mae ein hysgolion. Y maent yn cynnwys ac yn adlewyrchu pob arlliw crefyddol a diwylliannol mewn canol dinasoedd, stadau ar gyrion trefydd ac yng nghefn gwlad. Eu gweledigaeth a'u hymrwymiad yw bod yn wirioneddol gynhwysfawr o safbwynt eu golwg ar y byd a'r disgyblion a dderbyniant. Bydd eglwysi lleol yn datblygu cysylltiad bugeiliol agos â'r ysgolion hyn, ac fe'u cefnogir gan rwydwaith o staff addysg eglwysig ledled Cymru.

Mae ein hysgolion yn ymrwymedig i gynorthwyo pob plentyn i gyflawni ei botensial llawn mewn amgylchedd myfyrgar sy'n ei dderbyn ac yn rhoi cyfeiriad a phwrpas i'w fywyd. Yn y byd sydd ohoni, y mae agweddau ac ysbrydoledd, gwerthoedd a dyheadau, yr un mor bwysig â medrau technegol.

Ysgol Uwchradd Sant Joseff, Wrecsam, ysgol ar y cyd rhwng yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru.

Gofalu am yr amgylchedd

10
o egwyddorion cynaladwyedd wedi'u mabwysiadu i lywio ein hagwedd at yr amgylchedd

Masnach Deg
yr ydym yn annog prynu moesegol bob amser

Arweinlyfr
yr ydym wedi cynhyrchu Arweinlyfr Gwyrdd y Plwyf i hyrwyddo ein polisïau a'n gweithdrefnau

Gwobrau
byddwn yn rhoi gwobr bob blwyddyn am brosiectau gwyrdd ym mhob esgobaeth sy'n bwrw ymlaen â'r materion hyn

Yr ydym yn credu mai creadigaeth werthfawr Duw yw'r ddaear a'i hadnoddau.

Byddwn yn cynnal cynadleddau cenedlaethol a fydd, yn aml, yn ymdrin â materion dadleuol megis poblogaethau cynaladwy (cynhadledd a drefnwyd ar y cyd â'r Brifysgol Agored) ac ynni niwclear, yn ogystal â digwyddiadau aml-asiantaeth ar oblygiadau'r newid yn yr hinsawdd (ar y cyd â'r Sefydliad Materion Cymreig a Sefydliad y Cyfarwyddwyr).

Y mae gan ein grŵp 'yr Eglwys yn Gweithredu ar Gynnal yr Amgylchedd' gynrychiolwyr ar amryw o gyrff amgylcheddol, yn genedlaethol a rhyngwladol, ac y mae'n ceisio arwain polisi'r Eglwys ar y pwnc hollbwysig hwn. Y mae ein dull o drin y mater yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu cynaladwy.

Y mae eglwysi lleol ledled Cymru yn weithgar mewn gwahanol ymgyrchoedd, ac y mae addoliad a bywyd yr eglwys yn cynnwys rhoi sylw i bryderon amgylcheddol a gweithredu arnynt.

Eglwys Sant Joseff, Cwmaman. Mae paneli haul ar yr eglwys. Mae hi hefyd yn rhoi lle i weithgaredd cymunedol.

Bywyd cefn gwlad

6
o Gynghorwyr Bywyd Gwledig – un ym mhob esgobaeth

80%
o'n plwyfi mewn ardal wledig neu'n agos at ardal wledig

Ffermio
un o ddiwydiannau allweddol Cymru (er nad yw'n cynhyrchu ond 2% o'r Cynnyrch Domestig Crynswth)

Hunaniaeth
Mae'r ymdeimlad gwledig yn gryf yng Nghymru, e.e mae 280,000 o bobl yn ymweld â'r Sioe Fawr bob blwyddyn

Buom yn rhan hanfodol o'r Gymru wledig erioed ac y mae ei dyfodol o bwys mawr inni. Mae plwyfi gwledig yn chwarae rhan allweddol ym mywyd y gymuned gyda'i holl anawsterau cymdeithasol ac economaidd.

Trwy ein Cynghorwyr Bywyd Gwledig a'u rhwydweithiau ym mhob un o'r chwech esgobaeth yr ydym yn gweithio gydag asiantaethau eraill megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, Undebau Amaethwyr, y Rhwydwaith Argyfwng Fferm a'r Sefydliad Iechyd Gwledig, yn ogystal ag â marchnadoedd, cwmnïau bwyd cydweithredol, cyrff twristaidd a mudiadau trydydd sector.

Yn ystod Clwy'r Traed a'r Genau buom yn gweinyddu cronfa les Addington. Yr ydym yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd a chymunedau amaethyddol lleol.

Yr ydym yn cyfrannu at Gynllun Datblygu Cefn Gwlad (2013) a Chynllun Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad 2020 ac yn cefnogi'r weledigaeth o ddyfodol sicr i amaethu yng Nghymru.

Cynghorwraig bywyd gwledig, y Parchedig Eileen Davies, yn sgwrsio â ffermwr lleol yn Castell Newydd Emlyn.

Mynwentydd

1,217
o fynwentydd ledled Cymru

8,100
o angladdau yn 2007

125,000
o oriau gwirfoddol bob blwyddyn i gynnal a chadw ein mynwentydd

£16 miliwn
o waith atgyweirio yn angenrheidiol ar ein mynwentydd

Y mae mynwentydd yn cofnodi hanes cenedl y Cymry a bywydau ei phobl. Maent yn fynegbyst hollbwysig i'r gorffennol; y tir o gwmpas yr eglwys oedd y 'llan' gwreiddiol. Y maent yn lleoedd sy'n cynnig cysur.

Mae mynwentydd yn gynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt yn ogystal â bod yn ddarnau o dir lle y mae adeiladau rhestredig. Mewn ardaloedd trefol, y maent yn feysydd gwyrdd hanfodol.

Maent yn asedau cymunedol hollbwysig, yn lleoedd claddu i'r gymuned. Cynhelir y rhan fwyaf ohonynt, hyd yn oed pan nad oes gofod claddu ar ôl, gan y Cyngor Plwyf Eglwysig lleol, heb unrhyw gymorth gan y wladwriaeth. Ymhen deng mlynedd, amcangyfrifwn na fydd lle ar ôl i gladdu mewn dwy ran o dair o'n mynwentydd.

Mae'n wir bod Cynghorau Cymuned ac Adurdodau Lleol, mewn rhai lleoedd, yn cynnig grantiau, ond bydd yn rhaid wrth fwy o gymorth os yw ein mynwentydd i barhau i wasanaethu cymunedau Cymru.

Eglwys Ffraid, Sant-y-Brid – plant ysgol yn ymchwilio i hanes lleol yn y fynwent.

Caplaniaethau

20
o gaplaniaid mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn gwasanaethu 340,000 o fyfyrwyr a 29,000 o staff

27
o gaplaniaid mewn 4 carchar, yn gwasanaethu 1,517 o staff, a 2,807 o garcharorion

61
o gaplaniaid mewn 117 o ysbytai, lle y mae 88,000 o staff a13,354 o welyau

Y Lluoedd Arfog

gweinidogaethir i staff gartref a thramor

Yr ydym yn weithredol bresennol ym mywyd a strwythurau llawer o wahanol fudiadau, yn gweithio gyda'u staff a'r sawl y maent yn eu gwasanaethu. Penodir caplaniaid i'r heddlu, carchardai, ysbytai, y lluoedd arfog, busnesau, sefydliadau addysgol a brigadau tân.

Bydd caplaniaid yn gwasanaethu ar bwyllgorau a grwpiau prosiect sy'n gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar holl fywyd y mudiad, yn ogystal â darparu ystod o wasanaethau i unigolion a grwpiau arbennig. Gwerthfawrogir rôl y caplan fel un sy'n gosod patrwm o ysbrydoledd, gofal a gweithredu cymdeithasol a thrawsnewidiad personol, ac yn arwain eraill at hynny,

Ystyrir caplaniaid yn gydweithwyr allweddol yn y gwahanol sefydliadau. Y mae cydnabyddiaeth gynyddol o wahanol grefyddau a chyfundrefnau o werthoedd yn rhan o gydlynu cymdeithasol, ethos a lles ac iechyd y sefydliadau hyn.

Ysbyty Gwynedd, Bangor – Y Parchedig Wynne Roberts, caplan yr ysbyty, yn sgwrsio â'r staff arlwyo.

Gweithio gyda'r...

Llywodraeth
o'r Undeb Ewropeaidd i Awdurdodau Lleol

Sector gyhoeddus
yn cynnwys GIG Cymru a'r pedwar Heddlu

Sector breifat
mudiadau busnes a chwmnïau lleol

Trydydd sector
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a grwpiau lleol

Megis y mae Duw'n gofalu am holl agweddau bywyd, felly'r Eglwys hithau. Dyna pam ein bod am ymwneud â'r lleoedd lle y gwneir penderfyniadau sy'n effeithio ar ein lles cymdeithasol ac economaidd ac amgylcheddol ni oll.

Yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, yn lleol ac yn strategol, oherwydd y mae'r anawsterau yng Nghymru yn fwy nag y gall unrhyw fudiad na sector eu datrys ar ei ben ei hun.

Y mae a wnelom ag ystod eang o faterion, yn cynnwys materion gwledig, amddifadedd, tlodi, yr amgylchedd ac ynni, gor-yfed, troseddu, ymddygiad gwrth-gymdeithasol, materion rhyngwladol a chysylltiadau â chrefyddau eraill.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – un o'r partneriaid yr ydym yn cydweithio â hwy i hyrwyddo cymdeithas deg a chyfiawn i bawb.

A gyda llaw...

Distawrwydd
lleoedd tangnefeddus, tawel

Myfyrdod
cyfle i feddwl a gweddïo

Cerddoriaeth
i ysbrydoli a dyrchafu

Dysgu a Rhannu
cyd-archwilio doethineb a syniadau

Ar ddyddiau'r wythnos, yn ogystal ag ar y Sul, gallwch rannu eich pryderon â Duw ac ag eraill a rhoi diolch am bopeth sy'n dda. Mae'r Eglwys yn gefn ichwi ar adegau pwysig yn eich bywyd, amserau dathlu neu amserau anodd, wrth ichwi ymuno yn y patrwm o gyd-addoli gydol y flwyddyn.

Credwn fod ysbrydoledd yn rhan ganolog o bob rhan o fywyd, yn y gwaith ac yn y cartref, ac yr ydym yn cynnig cymorth, cyngor a chyfarwyddyd ar bopeth y mae a wneloch â hwy. Daw'r Eglwys â thraddodiadau cyfoethog y gorffennol i wynebu cwestiynau a sialensiau'r unfed ganrif ar hugain.

Y mae croeso i bawb – wrth galon addoli y mae cariad Duw at bob un. Wrth inni ymateb i'r cariad hwn mewn ffyrdd newydd a gwahanol, yr ydym yn cyfrannu at drawsnewid mudiadau a chymunedau ledled Cymru ac yn darganfod mwy o'r hyn a eilw'r Beibl yn 'gyflawnder bywyd'.

Eglwys Brynach, Nanhyfer. Mae croes Nanhyfer yn ein hatgoffa o natur ddigyfnewid ysbrydoledd a'r ffydd Gristnogol.

Os ydych am wybod mwy...



Rhifau Ffôn:

Swyddfa'r Dalaith:	029 2034 8200

Swyddfeydd yr Esgobaethau:

Abertawe ac Aberhonddu	01874 623716
Bangor	01248 354999
Llandaf	01656 868868
Llanelwy	01745 584321
Mynwy	01633 267490
Tyddewi	01267 236145

www.eglwysyngnghymru.org.uk

Argraffwyd ar bapur a ailgylchwyd 100%
(Chwefror 2009)